

**Mentrau**

**laith**

**Cymru**

**Ymgynghoriad:  
Miliwn o Siaradwyr Erbyn 2050**  
Ymateb Mentrau Iaith Cymru



## Cysylltu â Mentrau Iaith Cymru

Mentrau Iaith Cymru,  
Y Sgwâr,  
Llanrwst,  
Conwy,  
LL26 0LG

Ffôn: 01492 643401

[post@mentrauiath.cymru](mailto:post@mentrauiath.cymru)

[www.mentrauiath.cymru](http://www.mentrauiath.cymru)

## Cyflwyniad

Mae Mentrau Iaith Cymru yn fudiad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith y 23 Menter Iaith yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel un holl bwysig i waith y Mentrau Iaith ac i'r Gymraeg.

Mae ein hymateb wedi'i strwythuro drwy ddilyn strwythur y ddogfen ymgynghorol ac yn cynnig sylwadau yn ôl y meysydd datblygu yn y ddogfen. Ceir hefyd sylwadau pwysig isod, sy'n llorweddol i'n hymateb ac i'r strategaeth a chynnwys y ddogfen ymgynghorol.

## Sylwadau Llorweddol

Rydym yn croesawu'r egwyddor o osod targed i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a chredwn fod angen diffinio ac egluro'n well beth yn union a olygir wrth y gair 'siaradwyr'. Byddai symud ffocws y targed i gynnwys 'defnyddwyr' yn fwy addas, fydd yn tanlinellu a chydabod pwysigrwydd defnydd – sef defnydd cymunedol, yn y gweithle, wrth gyrchu gwasanaethau ac ym mhob agwedd arall ar fywyd - i hyfywedd y Gymraeg.

Yn ogystal, mae angen sicrhau, wrth ddatblygu'r strategaeth, bod cynllun gweithredu manwl – ar gyfer tymhorau byr, canolig a hir – yn cael ei greu i fapio allan yr amcanion a gosod targedau fydd angen eu gwireddu er mwyn gweld y cynnydd sylweddol sydd angen.

Wrth ddatblygu cynlluniau a gweithredu'r strategaeth fe fydd yn hanfodol bod ystyriaeth deilwng yn cael ei rhoi i'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol fydd yn effeithio ar y gwaith o wireddu'r strategaeth, boed yn effaith gadarnhaol neu beidio. Nid yw'n glir o'r ddogfen ymgynghorol faint y mae'r cyd-destun ehangach wedi ei ystyried hyd yma.

Mae angen sicrhau'r adnoddau priodol – dynol ac ariannol – i gefnogi'r strategaeth hon a'r cynlluniau gweithredu er mwyn i'r gwaith o wireddu'r weledigaeth ddwyn ffrwyth. Fe fydd hyn yn golygu clustnodi cyllid ychwanegol sylweddol tuag at gynlluniau ar draws meysydd polisi.

### ***Ydych chi'n cytuno gyda'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg?***

Rydym yn cytuno ac yn croesawu'r egwyddor o osod strategaeth sy'n gosod gweledigaeth ac uchelgais hirdymor ar gyfer y Gymraeg, strategaeth sydd â'r potensial, o'i chynllunio a'i gweithredu'n iawn, i osod seiliau cryfach i'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

### ***Yn eich barn chi, a oes unrhyw dargedau neu gerrig milltir penodol y dylid eu defnyddio er mwyn mapio'r siwrne a mesur ein cynnydd tuag at filiwn o siaradwyr?***

Mae'n bwysig gosod gwaelodlin clir o'r dechrau er mwyn mesur cynnydd yn nifer y siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwelwn mai ffigur y Cyfrifiad (neu beth bynnag fydd yr arolwg cyffelyb yn y dyfodol) fyddai fwyaf addas ar gyfer hyn ac mae'n bwysig nodi mai miliwn o siaradwyr yng Nghymru yw'r nod. Er mwyn sicrhau bod amcanion y strategaeth a'r weledigaeth yn dwyn ffrwyth yn nhermau creu a chynyddu'r nifer sy'n medru ac sy'n defnyddio'r Gymraeg dylid pennu targedau ychwanegol yn ymwneud â chynnydd yn y meysydd canlynol:

- Targedau yn ymwneud â niferoedd a defnydd iaith - tymor hir
- Targedau a cherrig milltir tymor byr - ar gyfer cynnal niferoedd presennol sy'n medru'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni
- Targedau yn ymwneud â throsglwyddiad iaith

- Targedau ynglŷn â thwf addysg Gymraeg a symudiad ysgolion ar hyd y continwrm iaith
- Targedau ariannol – sef targedau ynglŷn â'r cyllid ac adnoddau a glustnodir ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a thuag at sicrhau gwasanaethau Gymraeg
- Meini prawf ar sail hyfywedd iaith mewn cymunedau amrywiol (data meintiol ac ymchwil ansoddol)
- Cynnydd yn y nifer o wasanaethau Gymraeg a gweithlu er mwyn darparu'r gwasanaethau yna.
- Gwaith Cyfrwng Gymraeg - nifer o fentrau newydd lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y sefydliad
- Gwarchod a chynyddu'r niferoedd o gymunedau ble siaredir y Gymraeg gan dros 70% o'r boblogaeth.
- Lleihau allfudiad o siaradwyr Gymraeg a llwyddo i ddenu rhai nol i lenwi swyddi addas i'w sgiliau.

Fe fydd angen asesu a diffinio targedau mwy manwl wrth i'r strategaeth a'i chynllun gweithredu llawn ddatblygu.

Fe fydd casglu data mwy cynhwysfawr am y Gymraeg a defnydd iaith na'r hyn a gynigir gan y cyfrifiad a'r arolygon defnydd iaith, a gwaith i ddehongli a defnyddio'r data yma, yn allweddol i'r gwaith i fonitro a chwrdd â'r targedau hyn.

### ***Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r 6 maes datblygu a amlinellir yn y strategaeth – sef Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau?***

Tra bod yr egwyddor o bennu meysydd datblygu i'w groesawu, mae'r meysydd a gynigir yn ddogfen yn rhy benagored ac yn rhy eang. Er enghraifft, mae adran "Pobl" yn y ddogfen bresennol yn cwmpasu meysydd mor eang â chaffael iaith drwy'r system addysg statudol a gydol oes, trosglwyddiad iaith o fewn y teulu a chyfluoedd cymunedol i ddefnyddio'r iaith a thrwy hynny yn ceisio ymdrin â gormod o faterion. Fe fyddai'n well o lawer petai'r meysydd hyn yn derbyn ystyriaeth deilwng fel meysydd unigol, gyda chydabyddiaeth i'r cysylltiadau a chyd-ddibyniaeth rhyngddynt.

Dylai'r meysydd datblygu gael eu seilio ar fodel neu fframwaith cynllunio ieithyddol cydnabyddedig. Fe all hyn hwyluso'r broses o ddysgu, addasu a gweithredu arfer da o wledydd eraill yma yng Nghymru drwy weithredu a chynllunio ar gyfer yr un meysydd. Yn ogystal fe fyddai'n sicrhau bod y meysydd datblygu â mwy o ffocws ac yn cyd-fynd â meysydd gweithredu fydd yn ei dro yn hwyluso'r gwaith o wireddu amcanion y strategaeth.

### ***Sut allwch chi gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth sydd yn y strategaeth?***

Yn ystadegol mae eisoes mwy o siaradwyr Gymraeg na defnyddwyr Gymraeg. Felly mae angen buddsoddiad pellach yn y maes defnydd ar lawr gwlad er mwyn hyrwyddo defnydd ymhellach a chreu cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg. Rhaid cofio bod cynyddu defnydd yn arwain at godi hyder a gwella rhuglder ac o'r herwydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynnal sgiliau iaith ac osgoi bod unigolion yn colli'r iaith wedi gadael addysg Gymraeg yn un ar bymtheg oed dyweder.

Gan gofio pwysigrwydd defnydd iaith i ddyfodol y Gymraeg ac i lwyddiant y strategaeth hon, mae gwaith y Mentrau Iaith i hyrwyddo defnydd – drwy anogaeth, newid arferion, codi ymwybyddiaeth, dylanwadu a chreu cyfleoedd cymunedol – yn allweddol.

Drwy'r Mentrau Iaith a phartneriaid eraill mae yna botensial i barhau i ddatblygu rhwydwaith o ymarferwyr cynllunio iaith meicro â phresenoldeb ym mhob cymuned yng Nghymru. Credwn fod angen i'r strategaeth adnabod y Mentrau Iaith a phrif bartneriaid eraill yn rhan greiddiol o weithredu'r strategaeth, o safbwynt cynyddu defnydd a chynyddu niferoedd, gan fod y ddwy elfen yn annatod. Byddai sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r prif bartneriaid i weithredu elfennau o'r strategaeth yn rhywbeth i'w ystyried hefyd, yn hytrach na 'grant' cystadleuol, gan y byddai sicrhau gwell cyd-gynllunio strategol. Drwy gydol bywyd y strategaeth hon fe fydd yr egwyddor o weithredu a chynllunio'n lleol, gan gydweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol tuag at yr un nod hefyd yn holl bwysig.

Mae hefyd llawer o arbenigedd gweithredol wedi ei ddatblygu o fewn y Mentrau. Byddai cael mwy o gymhwysedd canolog yn galluogi'r Mentrau i ddatblygu a rhannu eu harferion da yn well, ynghyd â datblygu fel endid ieithyddol ar gyfer cynllunio ieithyddol ar lefel gymunedol.

## ***Maes 1: Cynllunio a pholisi iaith***

Rydym yn falch o weld sylw i'r maes polisi a chynllunio iaith yn y ddogfen ymgynghorol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r strategaeth iaith a'r cynlluniau gweithredu dylai cyd-fynd â hi, ymgynghori'n llawn gydag arbenigwyr cynllunio iaith yng Nghymru, ac ymarferwyr tu hwnt i Gymru, er mwyn sicrhau gwreiddiau deallusol cadarn i'r strategaeth a'r gweithgareddau fydd yn deillio ohoni.

Yn fwy cyffredinol credwn fod angen cryfhau a datblygu'r gydnabyddiaeth i'r proffesiwn cynllunio iaith yng Nghymru gan nad oes digon o gydnabyddiaeth na digon o gyfleoedd i ymarferwyr gydweithio a chyd-drafod ar hyn o bryd, na digon o fuddsoddiad yn natblygiad y gweithlu. Croesawn y cyhoeddiad diweddar am fuddsoddiad ychwanegol o £5 miliwn i'r Gymraeg ac edrychwn ymlaen at glywed rhagor am union natur y gwariant. Rhaid sicrhau na fydd sefydlu asiantaeth genedlaethol yn creu haenen fiwrocraataidd ddi-angen, ac felly bydd angen bod yn glir am union waith yr asiantaeth i ategu at yr hyn sy'n digwydd eisoes ac osgoi dyblygu gwaith ar bob cyfrif. Mae angen sicrhau felly y bydd gwerth gorau am arian ac y bydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Eto ar lefel gymunedol credwn dylai fod rôl arweiniol amlwg i rwydwaith y Mentrau yma yng nghyd-destun cynyddu defnydd a niferoedd yn gymunedol. Gyda buddsoddiad ychwanegol gall yr arbenigedd sydd wedi cael ei magu dros y 25 mlynedd o waith y Mentrau gael ei rannu a'i ddatblygu ymhellach. O fewn y gwaith yma ceir esiamplau o gynlluniau sydd yn wirioneddol llwyddo i newid patrymau defnydd iaith. Hefyd ceir tystiolaeth o gynlluniau nad ydynt yn gweithio. Mae'n hanfodol i allu defnyddio'r dystiolaeth yma a'i rhannu ar draws y wlad i greu rhaglen weithredol effeithiol cyffrous. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae angen mwy o gymhwysedd ar lawr gwlad a rhwydweithiol.

Byddai modd bwydo'r wybodaeth ac ymarfer dy yma i fyny i gorff annibynnol sydd yn cynllunio ar draws y maes cynllunio a hyrwyddo'r Gymraeg.

Hoffem bwysleisio bod cysylltiadau cymunedol a thrydydd sector cryf yn hanfodol ar gyfer y gwaith hwn a dylid cydweithio ac ymgynghori'n llawn gyda'r mudiadau sydd eisoes yn gweithredu yn y maes wrth gynllunio gwaith a chylch gorchwyl y corff.

Maes arall allweddol a nodir yn y ddogfen ymgynghorol yw cynllunio'r gweithlu. Ceir ffocws yn y ddogfen ar y gweithlu addysg ond credwn hefyd fod angen datblygu'r gweithlu ar draws sectorau mewn ffordd llawer mwy integredig.

Mae angen uned o fewn unrhyw gorff cydlynol newydd neu o fewn y llywodraeth i edrych ar ddatblygu'r cysyniad o gynllunio Farchnad Lafur Cymraeg er mwyn adnabod y galw a'r anghenion hyfforddi sgiliau neu iaith ar draws pob sector. Nid yw'n dderbyniol ein bod yn colli siaradwyr Cymraeg drwy allfudiad (e.e. o gymunedau gwledig a threfi'r gorllewin) a diffyg defnydd iaith (e.e. cymunedau â % is o siaradwyr lle mae llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar ôl i bobl ifanc adael yr ysgol). Tra hefyd yn dioddef o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ansawdd isel ac anghyson. Drwy well cynllunio buasai modd creu datrysiad i'r ddwy broblem yma.

Ceir argymhellion clir yn yr adroddiad *laith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* ar gyfer gweithredu pellach yn y maes cynllunio a pholisi iaith yng nghyd-destun Awdurdodau Lleol fel cyflogwyr a chyflenwir gwasanaethau sylweddol. Gellid trosglwyddo'r argymhellion hyn i gynllun gweithredu'r strategaeth iaith er mwyn gosod camau clir tuag at ddatblygu'r gweithlu.

Credwn fod angen mwy o waith yn y maes adnoddau dynol i egluro'r angen i uno sgiliau galwedigaethol ac ieithyddol wrth recriwtio a chynllunio gweithlu sy'n medru darparu yn y ddwy iaith. Er bod y neges yma wedi cyrraedd rhai cyrff a rhai sectorau ceir achosion o hyd lle mae sgiliau ieithyddol yn cael eu trin fel sgiliau â llai o bwyslais, h.y. yn "ddymunol" yn hytrach nag angenrheidiol, a hynny yn golygu nad oes modd darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith os nad yw'r person a benodir yn medru'r Gymraeg. Credwn hefyd fod yna achos clir i graffu a gweithredu ar y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn cynllunio'r gweithlu fel rhan o gynllunio gwasanaethau. Byddai uned Farchnad Lafur Cymraeg yn gallu mynd i ymfael a'r problemau yma.

Mae angen adolygiad mapio manwl o anghenion presennol ac anghenion y dyfodol yn ôl sector. Roedd yr adroddiad wyth sector wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol o ran rhagamcanion cyflogwyr ynglŷn â'r angen am weithiau â sgiliau yn y Gymraeg, ond nid oedd y data yn ddigon manwl er mwyn ei ddefnyddio'n bwrpasol sy'n golygu nad oes defnydd llawn o'r adroddiad wedi bod.

Credwn fod angen sylw brys i'r maes prentisiaethau o ran y cyfleoedd i bobl ifanc weithio a hyfforddi yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, nifer a chanran sydd angen cynyddu yn syth ac wedyn parhau i gynyddu yn y tymor hir.

Credwn hefyd fod potensial mawr i ddatblygu rôl y Mentrau a mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y maes prentisiaethau a phrofiad gwaith yn ogystal â gwaith cyfrwng Cymraeg. Mae gan y Mentrau le amlwg i chwarae drwy fesur y galw a'r angen am wasanaethau ar lawr gwlad. Mae nifer wedi creu Mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau lle mae gofod ac lle mae'r farchnad bresennol wedi methu â darparu. Ceir esiamplau o Meithrinfeidd, Cwmnïau Cyfieithu, Siopau Cymraeg a Gwasanaethau Gofal

plant hŷn drwy'r Mentrau, gyda photensial anferth i ddatblygu mwy o wasanaethau gyda'r gefnogaeth ac anodau priodol.

Croesawir y sylw ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau 'arweinwyr priodol' yn y manau cywir wrth gynllunio'r gweithlu a gwasanaethau. Credwn fod angen i'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yn y gweithle ac wrth ddarparu a chynllunio gwasanaethau ddod yn rhan o swyddi allweddol a dylanwadol. Achos amlwg o ddylanwad unigolion allweddol ydy llwyddiant Cymdeithas Pêl Droed Cymru i arddel y Gymraeg ar draws y sefydliad ac yn gyhoeddus, a hynny oherwydd gweithrediad unigolion yn y manau cywir.

Maes arall sydd angen ystyriaeth deilwng wrth ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ydy datblygu economaidd. Tra bod cydnabyddiaeth eang a brwd erbyn hyn i'r cysyniad o'r cyswllt a'r berthynas rhwng iaith ac economi, prin iawn yw'r ymchwil ac astudiaethau sy'n cynnig arweiniad ynglŷn â ffyrdd o ddatblygu'r iaith Gymraeg ac economi Cymru gyda'i gilydd. I'r perwyl hwn credwn fod angen sicrhau bod y Gymraeg yn rhan greiddiol yn strategaeth Datblygu Economaidd Cymru, gyda chynlluniau ac ymchwil ieithyddol, ac adnoddau priodol, tu ôl i ddatblygiad y strategaeth honno.

Mae hefyd angen hybu mentrau newydd a mentergarwch cyfrwng Gymraeg, gan gydnabod bod yna gyfleoedd ac anghenion unigryw gan siaradwyr a chymunedau Gymraeg nad yw rhaglenni cefnogaeth mentergarwch presennol, gan gynnwys y rhaglenni a ariennir drwy'r cronfeydd strwythurol, yn eu diwallu. Yng ngoleuni sgil-effeithiau posib o'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd mae angen arweiniad cadarn gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r adnoddau a'r cynlluniau fydd yn eu lle yn sgil colli mynediad at gronfeydd Ewropeaidd, gyda chyfle i ategu pwysigrwydd y Gymraeg o fewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

Mae llawer o gynlluniau mwyaf arloesol y Mentrau wedi dibynnu ar arian Ewropeaidd. Er mwyn sicrhau fod modd i'r Mentrau parhau gyda'r gwaith yma mae angen iddynt gael mynediad hawdd i gronfeydd newydd. Mae angen ehangu gweithgarwch cyfrwng Gymraeg tu hwnt i gyllideb y Gymraeg yn unig.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sydd yn gweithredu yn y maes mentergarwch, datblygu economaidd, cyflogaeth a sgiliau, berchenogi a chydweithio ar ddatblygu cynllun marchnad lafur cyfrwng Gymraeg, gydag adnoddau canolig digonol tuag at ddatblygu a mapio'r cynllun hwnnw.

O fewn y cyd-destun yma mae gan rwydwaith y Mentrau rôl allweddol i chwarae o ran adnabod y galw am wasanaethau Gymraeg newydd neu gyfleoedd economaidd gall ei datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cymunedau. Mae nifer o Fentrau wedi sefydlu mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau o'r fath yma. Credwn fod wir angen cynyddu gallu'r Mentrau i ddatblygu yn y cyd-destun yma. Mae yn arwain at greu swyddi a chreu gwasanaethau Gymraeg newydd. Credwn felly fod angen cael mynediad at gyllid datblygu economaidd penodol er mwyn cyflogi swyddogion Mentrau Cymdeithasol o fewn neu ar draws Mentrau i adnabod a datblygu cyfleoedd. Gwaith y swyddogion yma byddai targedu arian pellach i greu'r gwasanaethau drwy gronfeydd megis y Loteri, Cyngor Celfyddydau, Arian Adfywio neu ddulliau eraill megis cyfranddaliadau cymunedol neu "cyllido torfol". Ceir esiampl o un Menter Iaith sydd wedi adnabod yr angen am Feithrinfa Gymraeg

yn lleol. Ar ôl iddynt fuddsoddi £15k o arian wrth gefn i gyflogi swyddog i ddatblygu'r cynllun denwyd £375k i ddatblygu'r cynllun sydd erbyn hyn yn cynnal ei hun, gan gyflogi naw person a darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg dyddiol i 28 o blant.

## **Maes 2 - Normaleiddio**

Cytunwn ar y cyfan gyda chynnwys y bennod yma fod angen gwell ddealltwriaeth ynglŷn â ffactorau sy'n dylanwadu ar agweddau a dewisiadau ieithyddol, gyda chyfleoedd amlwg i wella ac adeiladu i'r gwaith ymchwil yn y maes yma a'r maes seicoleg iaith wrth ddatblygu a gweithredu'r strategaeth.

Unwaith eto rhaid pwysleisio pwysigrwydd annog a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg nawr ac yn y dyfodol, ac rydym ni felly yn croesawu'r nod o annog a gweld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac o wasanaethau Cymraeg a ddisgrifir yn y maes yma. Yn y pen draw, os ydym am normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, mae angen cynyddu'r defnydd ohoni ym mhob cwr o Gymru.

Yn y gorffennol ac ar hyn o bryd mae diffyg gweithredu polisiau a diffyg darpariaeth o wasanaethau Cymraeg wedi profi rhwystr enfawr yn yr ymdrech i annog a sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Gan symud o bolisiau a chynlluniau iaith i'r drefn safonau mae angen sicrhau bod y safonau a'r gweithgareddau sydd ynghlwm â nhw yn cael eu gweithredu'n llawn. Eto byddai uned Farchnad Lafur Gymraeg yn gallu mynd i afael a'r broblem yma.

## **Maes 3 - Addysg**

Cydnabyddwn yn llwyr pwysigrwydd addysg i'r weledigaeth uchelgeisiol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd annog a sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu allan i fyd addysg, yn y gymuned, wrth gymdeithasu ac ar ôl gadael yr ysgol drwy hyfforddiant pellach a'r byd gwaith. Ochr yn ochr â'r newidiadau a wneir i'r system addysg fydd yn cynyddu'r nifer sy'n medru'r Gymraeg, fe fydd hefyd weithgarwch cydlynus i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yr un mor allweddol.

Drwy osod y nod hirdymor o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg fe fydd rhaid gwneud newidiadau systemig a phellgyrhaeddol i'r gyfundrefn addysg. Ceir isod sylwadau a phwyntiau yn ymwneud â rhai meysydd sydd yn berthnasol i'r maes Addysg.

Mae bylchau mawr o safbwynt argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Er mwyn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050 mae angen sicrhau bod i nifer uchaf posib o blant yn medru cael mynediad at a dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel cyfnod allweddol ar ddechrau taith addysg plentyn, ac fel y cam cyntaf tuag at y Gymraeg i nifer helaeth.

Gyda'r polisi newydd sydd ar y gorwel o gyflwyno 30 awr o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio ceir cyfle i osod amod yn ymwneud â'r Gymraeg ar ddarparwyr, gan sicrhau bod cyfran benodol o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Oni wneir hynny ceir risg go iawn na fydd digon o ddarpariaeth ar gael i rieni sydd am i'w plant dderbyn gofal cyfrwng Cymraeg.

Mae angen cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy raglen Dechrau'n Deg a chynlluniau cyffelyb yn y dyfodol yn sylweddol, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y rhaglen i'r sector gofal plant.

Mae potensial mawr i ddatblygu mentrau gofal plant yn y trydydd sector, gyda nifer o Fentrau Iaith eisoes â modelau gweithredol llwyddiannus sydd wedi'u datblygu oherwydd diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg yn lleol.

Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn gallu golygu nad yw targedau cenedlaethol yn cael eu cyrraedd oherwydd diffyg gweithredu ar lefel leol – mae ymchwiliad pwyllgor plant a phobl ifanc yn ystod pedwerydd tymor y Cynulliad wedi nodi nad yw targedau cenedlaethol yn cael eu gwireddu oherwydd diffyg perchenogaeth a diffyg cynllunio gan Awdurdodau Lleol drwy'r WESPs. Fe fydd angen felly i Lywodraeth Cymru yrru newidiadau mewn ffordd llawer mwy cadarn er mwyn gwireddu gweledigaeth y strategaeth hirdymor *Miliwn o Siaradwyr*.

Wrth ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys rhesymoli a chau ysgolion gwledig, mae angen sicrhau nad yw addysg Gymraeg yn cael ei cholli. I'r gwrthwyneb, ceir cyfleoedd yma i ddatblygu addysg Gymraeg ymhellach.

Credwn fod diffiniadau cyfredol ysgolion – yn enwedig ysgolion dwyieithog – yn milwrio yn erbyn addysg Gymraeg. Wrth weithio tuag at y weledigaeth miliwn o siaradwyr dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol a throsglwyddo o fod yn ysgolion 'dwyieithog' neu 'ddwy ffrwd' i fod yn ysgolion penodedig cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir bod rhai Awdurdodau eisoes yn gwneud hyn ac fe ddylai'r Llywodraeth gefnogi Awdurdodau eraill i wneud hefyd. Cefnogwn yn llwyr hefyd y bwriad i gael gwared ar gyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

Ceir enghreifftiau o arfer da mewn rhai Awdurdodau Lleol sy'n cynnig darpariaeth effeithiol mewn canolfannau trochi. Mae darpariaeth o'r fath yn medru bod yn fodd i bobl ifanc gael eu cymhathu i gymunedau Cymraeg a manteisio'n llawn ar addysg cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth yn amrywiol ac nid yw pob Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth drwy ganolfannau trochi. Dylid cysoni dulliau a sicrhau bod cynlluniau trochi o ansawdd uchel ar gael ym mhob rhan o Gymru ac ar gyfer gwahanol ystodau oedran.

Cytunwn fod angen cynyddu'r gweithlu addysg er mwyn galluogi twf i ddiwydd ac mae angen cynlluniau manwl ar gyfer y maes yma. Mae sawl gweithred gallai helpu ddatblygu'r gweithlu:

- Cynnig cymhelliant i bobl sy'n medru addysgu yn y Gymraeg (ond nad ydynt yn gwneud ar hyn o bryd) i drosglwyddo i'r sector Cymraeg
- Cynyddu'r pwyslais ar sgiliau Cymraeg, tu hwnt i iaith achlysurol, fel rhan o hyfforddiant cychwynol i athrawon
- Ehangu ar y Cynllun Sabothol i athrawon a staff ysgolion
- Uned Farchnad Lafur i fesur y galw am wasanaethau Gymraeg a chynllunio hyfforddiant sgiliau neu iaith i ateb y galw yno. Hefyd gwella creu bas data



rhyngwladol o siaradwyr Cymraeg efo sgiliau penodol er mwyn cyplysu pobl sydd efo sgiliau penodol efo swyddi lle mae'r Gymraeg yn ffactor.

Mae angen sicrhau bod pwyslais ar werth a manteision sgiliau Cymraeg fel rhan ganolog o addysg gyrfaoedd mewn ysgolion, gan sicrhau hefyd fod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu i ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau er mwyn codi statws y Gymraeg fel sgil yn y gweithle.

Mae angen datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg a roddir gan golegau Addysg Bellach yn sylweddol, gyda'r egwyddor o efelychu ac addasu'r model a grëwyd drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y maes hwn.

Credwn hefyd fod angen cydnabyddiaeth i bwysigrwydd Addysg Bellach a'i rôl i hyfforddi carfannau o bobl sydd fwyaf tebygol o aros a gweithio yn eu bröydd genedigol, ac effaith hynny ar y Gymraeg yn lleol ac ar gynllunio'r gweithlu sy'n medru gweithio yn y ddwy iaith.

Mae angen parhau i ddatblygu'r Siarter Iaith, cynradd ac uwchradd, fel cynllun cenedlaethol, gan gynnwys adnoddau digonol i gefnogi ysgolion i'w hyrwyddo a gweithredu.

#### ***Maes 4 - Pobl***

Croesawn y sylw i bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y ddogfen ymgynghorol. Mae trosglwyddiad iaith yn y cartref yn ddewis defnydd eithaf a phersonol sy'n cael ei effeithio gan bob cyswllt â'r iaith gydol bywyd unigolyn. Nid yw'n benderfyniad ynysig sy'n cael ei gymryd ar un adeg benodol yn unig. Mae pob cyswllt a chyfle i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol yn ystod pob cyfnod allweddol o fywyd unigolyn yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y dewis i drosglwyddo iaith i'r plentyn yn y cartref.

Mae angen gwerthuso ymchwil a gweithredoedd blaenorol yn y maes, megis gwaith Twf, er mwyn dysgu ac ymateb i'r canfyddiadau. Mae angen gwaith pellach hefyd i segmentu cyfnodau allweddol (e.e. Cyfnod beichiogrwydd a genedigaeth; rheini a gofalwyr plant ifanc; rhieni i blant o bob oed) er mwyn gweithredu'n berthnasol i'r cyfnodau yma wrth fynd i'r afael â throsglwyddiad iaith.

Rydym yn croesawu'r sylw a roddir yn y ddogfen i sicrhau bod rhagor o gyfleoedd ar gael i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, a hynny ym mhob rhan o'r gymuned. Cydnabyddwn hefyd fod peuoedd ieithyddol, gan gynnwys peuoedd 'rhithiol' yn holl-bwysig i ddatblygiad a dilyniant defnydd iaith.

Cytunwn hefyd fod angen sicrhau bod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg amrywiol, sydd hefyd yn cynnig cysondeb a dilyniant, ar gael ar draws Cymru. Rydym yn pwysleisio unwaith eto pwysigrwydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, datblygiad fydd yn allweddol i unrhyw ymdrechion i gynyddu a datblygu rhagor o weithgareddau a chyfleoedd naturiol a safonol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn ategu'r neges ar ddechrau ein hymateb mai symud ffocws tuag at 'ddefnyddwyr' y Gymraeg, yn hytrach na 'siaradwyr' yn holl bwysig er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a chynnydd yn natblygiad y Gymraeg nawr ac yn y dyfodol.

Eto mae gwaith y Mentrau yn hanfodol i greu'r cyfleoedd yma. I'r perwyl hyn hoffwn weld buddsoddiad pellach i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae gwasanaethau hawdd i ddefnyddio yn elfennol i newid arferion iaith a chynyddu defnydd. Felly mae'n bwysig rhoi sylw i ddatblygu'r syniad o Farchnad lafur Gymraeg. Mae'n hanfodol hefyd fod y Mentrau iaith mewn sefyllfa i ymateb i greu gwasanaethau a mentrau newydd yn eu cymunedau, ac mae angen sicrwydd a chefnogaeth ariannol bellach i wneud hyn.

## ***Maes 5 - Cefnogi***

Rydym yn croesawu'r sylw yn y ddogfen ymgynghorol i'r angen i sicrhau datblygiadau technolegol a digidol yn y Gymraeg. Yn ogystal â'r pwyntiau a nodwyd yn y ddogfen fe all y camau canlynol helpu cefnogi a chryfhau seiliau'r Gymraeg wrth i dechnoleg barhau i ddatblygu.

Mae angen parhau i fuddsoddi yn y maes datblygu technoleg a digidol cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau hyfforddiant ar lefelau addysg statudol, addysg bellach ac uwch i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen cynyddu'r nifer o wefannau, platfformau a theclynnau eraill (e.e. peiriannau twll yn y wal a tiliau hunanwasanaeth) sydd yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn awtomatig er mwyn ehangu ar ddefnydd o'r Gymraeg drwy'r gwasanaethau digidol.

Mae angen sicrhau hefyd fod gemau, apiau a chynnyrch arall Cymraeg yn dod allan yr un pryd â'r fersiynau cyffelyb yn Saesneg.

## ***Maes 6 - Hawliau***

Croesawn sylw i'r maes hwn, ac i'r ymrwymiad o sicrhau bod y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol. Fe fydd angen manylion pellach ynglŷn â bwriadau Llywodraeth Cymru yn y maes yma er mwyn sicrhau bod y broses ymgynghori yn digwydd yn iawn.

Hoffem bwysleisio fod gwaith i'w wneud yn y tymor byr i gryfhau Mesur y Gymraeg i gynnwys rhannau o'r sector breifat, gan ymestyn i rannau eraill dros amser.

Blaenoriaeth arall ydy sicrhau bod y Safonau yn cael eu gweithredu yn llawn, gyda neges glir a chadarn o du'r Llywodraeth am greu'r galw yn hytrach nag ymateb i'r galw ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Gyda'r cyfleoedd eang â photensial i osod seiliau ar gyfer datblygiad y Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy'r Safonau mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth briodol i Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gwireddu hynny.

Fe fyddwn yn croesawu mwy o sylw hefyd i bwysigrwydd sicrhau statws uchel i'r iaith drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un ffordd o wneud hynny yw sicrhau ystyriaeth lawn i'r Gymraeg, a phresenoldeb gan fudiad neu gorff i gynrychioli'r Gymraeg ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol.